## Holywell Hospital Tea Bar reopens

The Good Companions Tea Bar has reopened at Holywell Community Hospital after being closed for nearly three years.

John Saunders, Chairman of the Good Companions fundraising group, said: “We are excited to have the tea bar open again. Staff, patients and visitors are very happy to see us open and to see us fundraising for the hospital.”

The 100-strong volunteer group have been fundraising for Holywell Community Hospital since 1964, and plan to continue providing added extras to support patients, families and staff.

Fundraising began in the 1960’s thanks to John and his wife Jean.

Jean, who was a nurse at the hospital, was frustrated with the lack of screens around patient beds. The couple purchased the screens themselves and then began hosting coffee mornings to raise much-needed funds. This fundraising grew into something that would still be going after over half a century, raising hundreds of thousands of pounds for the hospital.

In the past 12 months, the group have been able to donate multiple Sara Stedy’s, an alarm system to alert staff when patients move, a dentist’s chair, and so much more.

John said: “We are hoping that this year our events can return and we can continue benefitting local people with the money we raise. So far, there hasn’t been a request we have had to turn down thanks to donations.”

To support the Holywell Good Companions, you can make a donation in person by cash or cheque at Holywell Community Hospital tea bar or Reception.

## Bar Te Ysbyty Cymuned Treffynnon yn ailagor

Mae Bar Te Good Companions wedi ailagor yn Ysbyty Cymuned Treffynnon ar ôl bod ar gau am dair blynedd bron iawn.

Dywedodd John Saunders, Cadeirydd grŵp codi arian Good Companions: “Mae gallu ailagor y bar te yn brofiad cyffrous i ni. Mae staff, cleifion ac ymwelwyr yn hapus iawn yn ein gweld ni ar agor ac yn codi arian at yr ysbyty.”

Mae'r grŵp, sydd â 100 o wirfoddolwyr, yn codi arian at Ysbyty Cymuned Treffynnon ers 1964, ac maent yn bwriadu darparu pethau ychwanegol i gynorthwyo cleifion, teuluoedd a staff.

Cychwynnodd y gwaith codi arian yn y 1960au, diolch i John a Jean ei wraig.

Roedd Jean yn nyrs yn yr ysbyty, ac roedd y diffyg sgriniau o amgylch gwelyau'r cleifion yn peri rhwystredigaeth iddi. Prynodd y ddau y sgriniau eu hunain a chychwyn cynnal boreau coffi i godi arian yr oedd angen mawr amdano. Datblygodd y codi arian yn rhywbeth a fyddai'n dal i fynd dros gyfnod o hanner canrif, yn codi cannoedd o filoedd o bunnoedd at yr ysbyty.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r grŵp wedi cyfrannu nifer o larymau Sara Stedy (system larwm i rybuddio staff pan fydd cleifion yn symud), cadair deintydd a llawer iawn mwy.

Dywedodd John: “Rydym yn gobeithio y gall ein digwyddiadau ailgychwyn eleni ac y gallwn barhau i gynorthwyo pobl leol trwy gyfrwng yr arian y byddwn yn ei godi. Hyd yn hyn, diolch i'r cyfraniadau, nid ydym wedi gorfod gwrthod unrhyw gais.”

I gefnogi gwath Good Companions yn Ysbyty Treffynnon, gallwch roi rhodd (arian parod neu siec) yn y bar te neu'r Dderbynfa yn Ysbyty Cymuned Treffynnon.